Adroddiad Blynyddol y Gymraeg 2025-2026

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Boar

Shaping Our Future Wellbeing

Meddwl Cymraeg Think Welsh

Tegwch a Chynhwysiant Equity & Inclusion

Shaping Our Future Workforce

Cymraeg

Cynnwys

Rhagair 3

Crynodeb Gweithredol 4

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 5

Llywodraethu ac Atebolrwydd 6

Perfformiad yn erbyn Safonau'r Gymraeg 7

Safonau Cyflenwi Gwasanaethau 7

Safonau Llunio Polisi 8

Safonau Gweithredu 8

Y Sefyllfa Gyffredinol 9

Datblygu a Hyrwyddo'r Gymraeg 10

Dysgu'r Gymraeg a Datblygu'r Gweithlu 10

Hybu'r Defnydd o'r Gymraeg yn y Gweithle 11

Arfer Da Ar Draws y Bwrdd Iechyd 12

Cefnogi Cleifion a Defnyddwyr Gwasanaeth sy'n Siarad Cymraeg 12

Edrych tuag at y Dyfodol 13

Gwybodaeth Statudol 13

Cwynion yn Ymwneud â Safonau'r Gymraeg 13

Sgiliau Cymraeg y Gweithlu 14

Recriwtio a Gofynion y Gymraeg 14

Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a Dysgu'r Gymraeg 15

Gweithgarwch Monitro a Gwella Cydymffurfiaeth 15

Meysydd ar gyfer Gwelliant Parhaus 15

Dysgu, Heriau a Blaenoriaethau 16

Myfyrdodau ar 2025–2026 16

Heriau parhaus 16

Blaenoriaethau ar gyfer 2026 – 2027 17

Edrych tua'r Dyfodol 17

Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Gymraeg Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar gyfer 2025–2026. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn i gefnogi cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg a chryfhau'r ddarpariaeth o wasanaethau Cymraeg ar draws ein sefydliad.

Mae'r iaith Gymraeg yn rhan annatod o'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu ac mae ganddi rôl bwysig wrth ddarparu gofal iechyd sy'n canolbwyntio ar y person. Rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i sicrhau y gall cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a staff sy'n siarad Cymraeg gael mynediad at wasanaethau a chymorth yn eu dewis iaith, gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ym mhob agwedd ar ein gwaith.

Yn ystod 2025–2026, gwnaethom gynnydd mewn sawl maes pwysig. Rydym wedi gwella'r ffordd y cofnodir sgiliau Cymraeg y gweithlu, cynnal ffocws cryf ar ymwybyddiaeth staff, cefnogi cyfleoedd i ddysgu'r Gymraeg ac rydym wedi gweld enghreifftiau gwerthfawr o arfer dwyieithog ar draws ein gwasanaethau. Mae'r cyflawniadau hyn yn adlewyrchu ymrwymiad cydweithwyr sy'n gweithio i wneud y Gymraeg yn fwy gweladwy a hygyrch ym maes gofal iechyd.

Rhaid inni hefyd fod yn onest ynglŷn â'n sefyllfa bresennol. Nid yw cynnydd yn gyson ar draws y sefydliad eto, ac nid oes gennym bob amser y wybodaeth am y gweithlu na'r sicrwydd sydd ei angen i ddangos ein bod yn mynd i'r afael ag anghenion y Gymraeg yn systematig. Mae angen rhoi mwy o sylw i wasanaethau ffôn, dulliau cyfathrebu a reolir yn lleol, y broses o gynllunio'r gweithlu a chymhwyso gofynion y Gymraeg wrth



recriwtio. Mae ymgysylltu â Chomisiynydd y Gymraeg a'n gwaith monitro ein hunain wedi ein helpu i ddeall y bylchau hyn a rhaid iddynt nawr arwain at welliant cynaliadwy.

Er bod cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn parhau i fod yn gyfrifoldeb statudol, mae ein huchelgais yn ymestyn y tu hwnt i gydymffurfio yn unig. Rydym am greu amgylchedd lle mae'r Gymraeg yn weladwy, yn cael ei gwerthfawrogi a'i defnyddio'n weithredol; lle mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i ddatblygu a defnyddio eu sgiliau Cymraeg; a lle gall cleifion a defnyddwyr gwasanaeth ymwneud â'n gwasanaethau yn hyderus yn y Gymraeg os ydynt yn dewis gwneud hynny.

Hoffwn ddiolch i gydweithwyr ar draws y Bwrdd Iechyd am eu hymrwymiad a'u cyfraniad parhaus drwy gydol y flwyddyn. Mae eu hymdrechion yn helpu i sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i fod yn rhan bwysig o sut rydym yn darparu gofal iechyd tosturiol, cynhwysol a theg.

Wrth i ni edrych ar y camau nesaf, rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i adeiladu ar y cynnydd a wnaed hyd yma, mynd i'r afael â meysydd i'w gwella a gweithio ar y cyd â'n staff, cleifion, cymunedau a phartneriaid i gryfhau gwasanaethau Cymraeg ar gyfer y dyfodol.

Rachel Gidman
Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Diwylliant
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio perfformiad Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn erbyn Safonau'r Gymraeg rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026. Mae'n cofnodi meysydd cynnydd ac arfer da, gan gydnabod hefyd nad yw capasiti, darpariaeth a sicrwydd y Gymraeg yn gyson ar draws y sefydliad eto. Mae angen gwaith pellach i sicrhau bod anghenion y Gymraeg yn cael eu nodi'n systematig a bod cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a staff yn cael profiad dibynadwy ar draws pob gwasanaeth.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi mabwysiadu dull tryloyw o adrodd yn fwriadol, gan amlygu cynnydd a meysydd sydd angen eu gwella er mwyn cefnogi gwelliant parhaus a dysgu sefydliadol.

Cynnydd Allweddol

Yn ystod 2025-2026:

- Cofnodwyd sgiliau Cymraeg y gweithlu ar gyfer 70.14% o staff, sy'n cynrychioli gwelliant sylweddol ac yn darparu sylfaen gryfach ar gyfer cynllunio'r gweithlu a datblygu gwasanaethau.
- Cwblhaodd 87.96% o staff y modiwl e-ddysgu gorfodol, Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, gan helpu i gryfhau dealltwriaeth o Safonau'r Gymraeg a'r Cynnig Gweithredol.
- Parhawyd i hyrwyddo cyfleoedd dysgu'r Gymraeg drwy bartneriaethau â Dysgu Cymraeg Caerdydd a'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Dysgu Cymraeg, gan gefnogi hyder a gallu staff.
- Roedd cyfathrebu dwyieithog yn parhau i fod yn flaenoriaeth ar draws gwybodaeth i gleifion, llwyfannau digidol, cyfathrebu corfforaethol a gwasanaethau sy'n wynebu'r cyhoedd.
- Ni dderbyniodd y Bwrdd Iechyd unrhyw gwynion ffurfiol yn ymwneud â chydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg yn uniongyrchol drwy ei brosesau cwynion corfforaethol.



Heriau a Dysgu

Ochr yn ochr â datblygiadau cadarnhaol, mae'r dystiolaeth yn dangos bod angen cynnydd sefydliadol pellach. Mae data ar Gymraeg y gweithlu yn parhau i fod yn anghyflawn, mae gwybodaeth recriwtio yn dangos nad yw gallu yn y Gymraeg yn cael ei drosi'n gyson i ofynion rôl eto, ac mae angen cryfhau sicrwydd ar draws sianeli cyfathrebu dros y ffôn a sianeli cyfathrebu a reolir yn lleol. Mae materion a godwyd yn uniongyrchol gyda Chomisiynydd y Gymraeg hefyd yn dangos na ddylid dehongli absenoldeb cwynion a dderbyniwyd drwy brosesau'r Bwrdd Iechyd ei hun fel tystiolaeth nad oes pryderon yn bodoli. Bydd y canfyddiadau hyn yn cael eu defnyddio i dargedu gwelliant yn ystod 2026–2027.

Blaenoriaethau ar gyfer 2026 - 2027

Bydd y Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio ar:

- IWella cyflawnrwydd ac ansawdd data sgiliau Cymraeg y gweithlu.
- Cynyddu hyder a gallu staff i ddefnyddio'r Gymraeg.
- Cryfhau'r ddarpariaeth gwasanaethau Cymraeg a'r Cynnig Gweithredol.
- Gwella sicrwydd o ran cyfathrebu dros y ffôn, yn ddigidol ac ar y cyfryngau cymdeithasol.

- Cynnal trefniadau llywodraethu cryf a gwelliant parhaus.

Crynodeb

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fod wedi ymrwymo i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg a bod cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a staff sy'n siarad Cymraeg yn gallu cael mynediad at wasanaethau a chymorth trwy gyfrwng y Gymraeg yn hyderus. Mae'r cynnydd a gyflawnwyd yn ystod 2025–2026 yn darparu sylfaen gref ar gyfer gwelliant parhaus yn y flwyddyn i ddod.

Ynglŷn â'r adroddiad hwn

Sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith deddfwriaethol i hyrwyddo a gwarchod y Gymraeg yng Nghymru. O dan Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7), mae'n ofynnol i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg a bod unigolion yn gallu cael mynediad at wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg lle maent yn dewis gwneud hynny.

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn cwmpasu'r cyfnod 1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026 ac yn disgrifio sut y cyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei gyfrifoldebau o dan Safonau'r Gymraeg yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae'r adroddiad wedi'i baratoi yn unol â gofynion Comisiynydd y Gymraeg ac mae'n rhan o ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i dryloywder, atebolrwydd a gwelliant parhaus.

Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o'r trefniadau sydd ar waith i gefnogi cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ar draws y sefydliad. Mae'n amlinellu'r gweithgarwch a wnaed mewn perthynas â'r Safonau Darparu Gwasanaethau, Llunio Polisïau a Gweithredol, ynghyd â'r wybodaeth statudol sy'n ofynnol fel rhan o'r broses adrodd flynyddol.

Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at y cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn i gefnogi ymdrechion i ddarparu gwasanaethau dwyieithog, datblygu gallu'r gweithlu a chryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae'n gorffen drwy nodi blaenoriaethau allweddol a fydd yn cefnogi gwelliant parhaus ac yn helpu i sicrhau y gall cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a staff sy'n siarad Cymraeg gael mynediad at wasanaethau a chymorth drwy gyfrwng y Gymraeg.



Llywodraethu ac Atebolrwydd

Mae trefniadau llywodraethu cryf yn hanfodol i sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn cyflawni ei gyfrifoldebau o dan Safonau'r Gymraeg ac yn parhau i wella mynediad at wasanaethau Cymraeg i gleifion, defnyddwyr gwasanaethau a staff. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i ymgorffori ystyriaethau'r Gymraeg wrth wneud penderfyniadau, darparu gwasanaethau a gwneud cynlluniau sefydliadol er mwyn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae atebolrwydd cyffredinol am gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn nwylo'r Prif Weithredwr, gyda chyfrifoldeb gweithredol wedi'i ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Diwylliant. Darperir goruchwyliaeth strategol drwy'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant, sy'n derbyn sicrwydd ynghylch cydymffurfiaeth, yn monitro cynnydd yn erbyn camau gwella ac yn goruchwylio dull y Bwrdd Iechyd o ran gwasanaethau'r Gymraeg.

Darperir cymorth cydlynu a gweithredol o ddydd i ddydd gan y Tîm Tegwch a Chynhwysiant. Mae'r tîm yn gweithio gyda Byrddau Clinigol, Byrddau Gwasanaeth ac adrannau corfforaethol i helpu i weithredu'r Safonau, darparu cyngor ac arweiniad, cydlynu gweithgarwch monitro a hyrwyddo arfer da ar draws y sefydliad.

Yn ystod 2025–2026, parhaodd y Bwrdd Iechyd i fonitro cydymffurfiaeth drwy drefniadau sicrwydd sefydledig. Roedd hyn yn cynnwys goruchwylio data sgiliau Cymraeg y gweithlu, hyfforddiant staff, cwynion a phryderon, a mentrau gwella gwasanaethau. Gwnaeth gweithgarwch hunanasesu a chasglu tystiolaeth a gynhaliwyd drwy gydol y flwyddyn helpu i nodi meysydd o arfer da, cyfleoedd i wella a risgiau sy'n dod i'r amlwg.

Parhaodd y Bwrdd Iechyd i gynnal ymgysylltiad adeiladol â Chomisiynydd y Gymraeg drwy gydol y cyfnod adrodd hefyd. Rhoddodd gweithgarwch monitro a chydymffurfio a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn sicrwydd gwerthfawr a llywiodd nifer o gamau gwella yn ymwneud â chynllunio'r gweithlu, cyfathrebu digidol, gwasanaethau ffôn a datblygu gwasanaethau Cymraeg. Defnyddiwyd y canfyddiadau a'r argymhellion sy'n deillio o'r gwaith hwn i gryfhau dysgu sefydliadol a chefnogi gwelliant parhaus.

Er bod cynnydd wedi'i wneud mewn sawl maes, mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod pwysigrwydd cynnal trefniadau llywodraethu a sicrwydd cadarn i gefnogi gwelliant cynaliadwy. Bydd ffocws penodol yn ystod 2026–2027 ar gryfhau data'r gweithlu, gwella sicrwydd ar draws sianeli cyfathrebu a pharhau i adeiladu capasiti sefydliadol i ddarparu gwasanaeth Cymraeg o ansawdd uchel.

Perfformiad yn erbyn Safonau'r Gymraeg

Yn ystod 2025–2026, parhaodd y Bwrdd Iechyd i weithredu Safonau'r Gymraeg ar draws ei wasanaethau a'i swyddogaethau. Canolbwyntiodd y gweithgarwch a gynhaliwyd drwy gydol y flwyddyn ar gryfhau'r ddarpariaeth o wasanaethau dwyieithog, cefnogi staff i ddatblygu a defnyddio sgiliau Cymraeg, a sicrhau bod ystyriaethau'r Gymraeg wedi'u hymgorffori mewn prosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau. Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o gynnydd yn erbyn y Safonau Cyflenwi Gwasanaethau, Llunio Polisïau a Gweithredol.

Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

Bwriad y Safonau Cyflenwi Gwasanaethau yw sicrhau y gall cleifion, defnyddwyr gwasanaethau ac aelodau'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg gael mynediad at wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cyfathrebu a Gwybodaeth Ddwyieithog

Drwy gydol y flwyddyn, parhaodd Byrddau Clinigol, Byrddau Gwasanaeth ac adrannau corfforaethol i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn ddwyieithog ar draws ystod o sianeli cyfathrebu. Dangosodd tystiolaeth a gyflwynwyd gan wasanaethau ymdrechion parhaus i sicrhau bod gwybodaeth i gleifion ar gael yn y Gymraeg, i hyrwyddo'r Cynnig Gweithredol a chefnogi staff i gydnabod ac ymateb i ddewisiadau iaith. Roedd enghreifftiau'n cynnwys cyfieithu gohebiaeth a deunyddiau gwybodaeth i gleifion, darparu gwybodaeth ddwyieithog i gleifion a hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg o fewn timau ac adrannau lleol.

Hefyd, adroddodd sawl gwasanaeth am gamau gweithredu i wella ymwybyddiaeth o anghenion y Gymraeg o fewn llwybrau clinigol a phrosesau cyfathrebu, gan helpu i gefnogi dewis cleifion a gwella mynediad at wasanaethau yn y Gymraeg.

Cyfathrebu Digidol a'r Cyfryngau Cymdeithasol

Parhaodd y Tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu i gefnogi cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg drwy brosesau llywodraethu a chymeradwyo sefydledig ar gyfer cyfathrebu digidol. Cafodd cynnwys cyfryngau cymdeithasol corfforaethol ei gyhoeddi'n ddwyieithog, roedd cydymffurfiaeth â'r Gymraeg yn rhan o drefniadau cymeradwyo cyfathrebu, ac roedd sesiynau misol Holi Suzanne yn parhau i fod ar gael trwy wasanaeth cyfieithu ar y pryd i'r Gymraeg. Roedd cynnwys gwefannau corfforaethol hefyd yn parhau i fod yn destun gofynion cyhoeddi dwyieithog.

Yn ystod y cyfnod adrodd, cynhaliodd Comisiynydd y Gymraeg fonitro thematig o gydymffurfiaeth ar draws y cyfryngau



cymdeithasol. Tynnodd y canfyddiadau sylw at gydymffurfiaeth gref ar draws cyfrifon corfforaethol a reolir yn ganolog gan nodi cyfleoedd i gryfhau trefniadau goruchwylio a sicrwydd ar gyfer cyfrifon adrannol a reolir yn lleol. Mewn ymateb, mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i weithio i wella llywodraethu a chryfhau trefniadau monitro ar draws sianeli cyfathrebu digidol.

Gwasanaethau Ffôn

Parhaodd y Bwrdd Iechyd i weithredu gwelliannau yn ymwneud â gwasanaethau ffôn dwyieithog yn dilyn gweithgarwch gorfodi blaenorol gan Gomisiynydd y Gymraeg. Roedd y gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn yn cynnwys cryfhau cyfarchion dwyieithog, adolygu systemau ffôn awtomataidd a gwella sicrwydd ynghylch darpariaeth y Gymraeg o fewn gwasanaethau ffôn. Mae cwblhau nifer o gamau gorfodi yn cynrychioli cynnydd. Serch hynny, dangosodd monitro na all y Bwrdd Iechyd fod yn sicr eto bod galwyr sy'n siarad Cymraeg yn derbyn gwasanaeth cyson ar draws pob system ffôn a maes gwasanaeth. Mae angen gwaith pellach ar allu staff, cyfarchion dwyieithog, systemau awtomataidd a monitro lleol. Bydd rhoi mwy o sicrwydd bod galwyr sy'n siarad Cymraeg yn gallu cael mynediad at wasanaethau'n gyson drwy gyfrwng y Gymraeg yn parhau i fod yn faes ffocws allweddol yn ystod 2026–2027.



Safonau Llunio Polisi

Bwriad y Safonau Llunio Polisi yw sicrhau bod ystyriaethau'r Gymraeg yn cael eu hymgorffori mewn cynllunio strategol, datblygu polisïau a gwneud penderfyniadau. Drwy gydol 2025–2026, parhaodd ystyriaethau'r Gymraeg i fod yn rhan o brosesau llywodraethu ac asesu sefydledig ar draws y Bwrdd Iechyd. Ystyriwyd effeithiau ar y Gymraeg drwy Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd a'u hymgorffori mewn cynllunio sefydliadol ehangach a gweithgarwch datblygu gwasanaethau. Adroddodd Byrddau Clinigol a Byrddau Gwasanaeth fod anghenion y Gymraeg yn cael eu hystyried ochr yn ochr â gofynion hygyrchedd a chyfathrebu ehangach wrth adolygu gwasanaethau, datblygu mentrau gwella ac ymgymryd â newid sefydliadol.

Parhaodd Cynllun Ymgynghori Clinigol y Bwrdd Iechyd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a chynllunio gwasanaethau clinigol yn y Gymraeg. Canolbwyntiodd gweithgarwch yn ystod y flwyddyn ar wella dealltwriaeth o allu'r gweithlu o ran y Gymraeg a sicrhau bod trefniadau cynllunio yn cael eu llywio gan ddealltwriaeth gliriach o angen ieithyddol a gallu'r gweithlu.

Atgyfnerthodd y gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn bwysigrwydd gwybodaeth gywir am y gweithlu, cynllunio gwasanaethau yn effeithiol ac ystyried anghenion ieithyddol yn gynnar mewn prosesau gwneud penderfyniadau. Bydd y rhain yn parhau i fod yn feysydd ffocws pwysig wrth i'r Bwrdd Iechyd barhau i ddatblygu gwasanaethau Cymraeg a chefnogi dewis cleifion.

Safonau Gweithredu

Mae'r Safonau Gweithredu yn cefnogi defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle ac yn helpu i sicrhau bod staff yn gallu cael mynediad at gymorth, gwybodaeth a

chyfleoedd datblygu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Sgiliau Cymraeg y Gweithlu

Roedd gwella'r broses o gofnodi a chael dealltwriaeth o sgiliau Cymraeg y gweithlu yn parhau i fod yn flaenoriaeth bwysig i'r sefydliad yn ystod 2025–2026. Gweithredodd y Bwrdd Iechyd ystod o fesurau i wella cyflawnrwydd ac ansawdd data'r gweithlu, gan gynnwys trefniadau llywodraethu cryfach, cyfathrebu wedi'i dargedu, gofynion cofnodi gorfodol a monitro rheolaidd ar draws Byrddau Clinigol, Byrddau Gwasanaeth ac adrannau corfforaethol.

Ar 31 Mawrth 2026, roedd sgiliau Cymraeg wedi'u cofnodi ar gyfer 70.14% o'r gweithlu. Mae hyn yn dangos cynnydd wrth gwblhau data. Fodd bynnag, nid oedd 29.86% o'r gweithlu wedi cael eu hasesu. Mae hyn yn parhau i fod yn fwlch gwybodaeth sylweddol ac yn cyfyngu ar allu'r Bwrdd Iechyd i ddeall ei allu yn y Gymraeg, gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch y gweithlu a chydweddu'r ddarpariaeth ag anghenion y gwasanaeth. Bydd gwella cyflawnrwydd a dibynadwyedd y data hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth yn ystod 2026–2027.

Er bod cynnydd wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn, mae gwella cyflawnrwydd a chywirdeb data sgiliau Cymraeg y gweithlu yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol er mwyn cefnogi'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau Cymraeg yn effeithiol.



Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a Datblygu'r Gweithlu

Parhaodd y Bwrdd Iechyd i gefnogi dealltwriaeth staff o Safonau'r Gymraeg, y Cynnig Gweithredol a phwysigrwydd gwasanaethau Cymraeg o fewn lleoliadau gofal iechyd. Ar 31 Mawrth 2026, roedd 87.96% o staff wedi cwblhau'r modiwl e-ddysgu gorfodol, Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg.

Cefnogwyd staff hefyd i ddatblygu sgiliau Cymraeg trwy ystod o gyfleoedd dysgu a ddarparwyd mewn partneriaeth â Dysgu Cymraeg Caerdydd a'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Dysgu Cymraeg. Darperir rhagor o wybodaeth yn ymwneud â gweithgarwch dysgu a datblygu yn Adran 6 o'r adroddiad hwn.

Recriwtio a Chynllunio'r Gweithlu

Parhawyd i ystyried gofynion y Gymraeg fel rhan o brosesau recriwtio a chynllunio'r gweithlu drwy gydol y cyfnod adrodd. Yn ystod 2025–2026, hysbysebwyd 1,232 o swyddi gwag. Nodwyd bod sgiliau Cymraeg yn ddymunol ar gyfer 1,188 o swyddi ac nid yn angenrheidiol ar gyfer 44; ni nododd unrhyw swydd fod y Gymraeg yn hanfodol nac yn sgil i'w dysgu ar ôl penodi. Er bod seilwaith ar gael i helpu rheolwyr i asesu gofynion Cymraeg rolau, mae'r ffigurau hyn yn codi cwestiynau ynghylch a yw'r seilwaith hwnnw'n cael ei gymhwyso'n gyson ac a yw penderfyniadau recriwtio yn adlewyrchu anghenion y gwasanaeth a'r boblogaeth yn ddigonol. Bydd cryfhau ansawdd, cysondeb a chraffu ar yr asesiadau hyn yn flaenoriaeth ar gyfer 2026–2027.

Y Sefyllfa Gyffredinol

Mae perfformiad yn ystod 2025–2026 yn cyflwyno darlun cymysg ond datblygol.

Gwellodd y Bwrdd Iechyd y broses o gwblhau data'r gweithlu, cynhaliodd gyfradd uchel o hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a chefnogodd enghreifftiau o arfer cadarnhaol ar draws gwasanaethau. Mae'r datblygiadau hyn yn darparu sylfeini defnyddiol ar gyfer gwelliant pellach.



Fodd bynnag, nid yw cynnydd yn gyson ar draws y sefydliad eto. Mae data'r gweithlu'n parhau i fod yn anghyflawn, mae angen cryfhau'n sylweddol y broses o gymhwyso gofynion y Gymraeg wrth recriwtio, ac nid yw sicrwydd yn gyson eto ar draws gwasanaethau ffôn a chyfathrebu a reolir yn lleol. Mae'r dystiolaeth hefyd yn disgrifio gweithgarwch sefydliadol yn gliriach na'i effaith ar brofiad cleifion a defnyddwyr gwasanaeth sy'n siarad Cymraeg. Bydd mynd i'r afael â'r cyfyngiadau hyn yn gofyn am arweinyddiaeth barhaus, atebolrwydd cliriach a ffocws cryfach ar ganlyniadau mesuradwy yn ystod 2026–2027.



Datblygu a Hyrwyddo'r Gymraeg

Mae'r Bwrdd Iechyd nid yn unig yn anelu at gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ond hefyd at feithrin diwylliant sefydliadol lle mae'r Gymraeg yn weladwy, yn cael ei gwerthfawrogi a'i defnyddio'n weithredol.

Drwy gydol 2025–2026, parhaodd y Bwrdd Iechyd i hyrwyddo cyfleoedd i staff ddatblygu eu sgiliau Cymraeg, cynyddu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle a chefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau dwyieithog ar draws lleoliadau clinigol ac anghlinigol.

Mae'r gwaith hwn yn adlewyrchu ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i gefnogi'r Cynnig Gweithredol a chreu amgylchedd lle mae cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a staff sy'n siarad Cymraeg yn teimlo eu bod yn cael eu cydnabod, eu cynnwys a'u bod yn gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg lle maent yn dewis gwneud hynny.

Dysgu'r Gymraeg a Datblygu'r Gweithlu

Mae datblygu hyder a gallu'r gweithlu yn parhau i fod yn elfen allweddol o ddull y Bwrdd Iechyd o hyrwyddo'r Gymraeg. Yn ystod 2025–2026, parhaodd staff i gael mynediad at amrywiaeth o gyfleoedd dysgu drwy bartneriaeth y Bwrdd Iechyd â Dysgu Cymraeg Caerdydd a'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Dysgu Cymraeg. Mae'r rhaglenni hyn yn cefnogi staff ar wahanol gamau o'u taith ddysgu ac yn helpu i feithrin hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg mewn lleoliadau gofal iechyd.

Cyfleoedd Dysgu

Hyrwyddwyd amrywiaeth o gyfleoedd dysgu drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys cyrsiau cyflwyniadol i ddysgwyr newydd a rhaglenni sydd â'r nod o gefnogi staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn fwy hyderus yn y gweithle. Mae'r cyfleoedd hyn yn darparu cefnogaeth ymarferol i staff sy'n dymuno datblygu sgiliau Cymraeg a chyfrannu at gyflwyno'r Cynnig Gweithredol ar draws gwasanaethau'r Bwrdd Iechyd.

Roedd cyfranogiad staff yn cynnwys:

- 74 o staff yn cwblhau Cwrs Croeso.
- 40 o staff yn cwblhau Cwrs Blasu.
- 44 aelod o staff wedi cofrestru i wneud Cwrs Codi Hyder. 7 aelod o staff yn cwblhau Codi Hyder.

Gyda'i gilydd, mae'r rhaglenni hyn yn cefnogi staff i ddatblygu sgiliau iaith ymarferol, cynyddu hyder a chymhwyso'r Gymraeg mewn rhyngweithiadau beunyddiol â chleifion, defnyddwyr gwasanaeth a chydweithwyr.

Meddwl Cymraeg
Think Welsh

Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg

Ochr yn ochr â dysgu'r iaith yn ffurfiol, parhaodd y Bwrdd Iechyd i hyrwyddo ymwybyddiaeth o Safonau'r Gymraeg, y Cynnig Gweithredol a phwysigrwydd gwasanaethau Cymraeg drwy hyfforddiant gorfodol ar Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg. Mae hyn yn cyfrannu at ddealltwriaeth sefydliadol ehangach o sut y gall iaith ddylanwadu ar brofiad, hygyrchedd a chynhwysiant cleifion.

Hybu'r Defnydd o'r Gymraeg yn y Gweithle

Mae creu cyfleoedd i staff ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle o ddydd i ddydd yn parhau i fod yn rhan bwysig o ddatblygu diwylliant dwyieithog.

Rhwydwaith Staff Rhwyd-iaith

Parhaodd Rhwyd-iaith, rhwydwaith staff Cymraeg y Bwrdd Iechyd, i ddarparu fforwm i staff sy'n siarad Cymraeg, sy'n dysgu Cymraeg neu sy'n dymuno cynyddu eu defnydd o'r iaith yn y gwaith. Mae'r rhwydwaith yn rhannu adnoddau, cyfleoedd dysgu a gwybodaeth am fentrau Cymraeg, tra hefyd yn darparu anogaeth a chefnogaeth gan gymheiriaid i staff sy'n datblygu eu sgiliau iaith.

Drwy gydol y flwyddyn, chwaraeodd Rhwyd-iaith rôl wrth hyrwyddo gweithgareddau Cymraeg ar draws y sefydliad a chodi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd sydd ar gael i staff.

Rhwyd-iaith

Codi Ymwybyddiaeth a Meithrin Hyder

Parhaodd y Bwrdd Iechyd i hyrwyddo dysgu ac ymwybyddiaeth o'r Gymraeg drwy amrywiaeth o sianeli cyfathrebu mewnol a gweithgareddau ymgysylltu. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Hyrwyddo cyfleoedd ac adnoddau dysgu'r Gymraeg.
- Annog staff i gofnodi eu sgiliau Cymraeg ar ESR.
- Rhannu adnoddau ymarferol i gefnogi cyfarchion a sgyrsiau dwyieithog.
- Cefnogi ymwybyddiaeth o'r Cynnig Gweithredol.

- Hyrwyddo ymgyrchoedd a digwyddiadau cenedlaethol y Gymraeg.

Mae'r gweithgareddau hyn yn helpu i greu amgylchedd cefnogol lle mae staff yn cael eu hannog i ddatblygu a defnyddio'r Gymraeg, beth bynnag yw eu lefel wybodaeth neu hyder yn siarad yr iaith.

Arfer Da Ar Draws y Bwrdd Iechyd

Mae'r enghreifftiau isod yn dangos arfer lleol cadarnhaol. Dylid eu hystyried fel enghreifftiau o ddulliau sy'n datblygu yn hytrach na thystiolaeth o weithredu cyson ar draws y sefydliad. Dylai adroddiadau yn y dyfodol geisio cynnwys gwybodaeth am gyrhaeddiad, canlyniadau a'r graddau y mae dulliau llwyddiannus wedi'u mabwysiadu mewn mannau eraill.

Bwrdd Clinigol Diagnosteg Glinigol a Therapiwteg

Adroddodd y Bwrdd Clinigol Diagnosteg Glinigol a Therapïau welliannau sylweddol yng nghyfraddau cofnodi sgiliau Cymraeg y gweithlu a pharhaodd i hyrwyddo adnoddau Cymraeg trwy sianeli cyfathrebu lleol. Cymerodd gwasanaethau o fewn y Bwrdd Clinigol gamau ymarferol hefyd i wella mynediad at wasanaethau Cymraeg, gan gynnwys sicrhau bod gwybodaeth a gohebiaeth cleifion ar gael yn ddwyieithog lle bo'n briodol. Gwnaeth aelod o staff fynd ati hefyd i ddysgu'r Gymraeg er mwyn cyfathrebu â chleifion sy'n siarad Cymraeg.

Bwrdd Clinigol Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Chanolradd (PCIC)

Roedd Gwobrau Dathlu PCIC 2025 yn cynnwys Gwobr bwrpasol ar gyfer Cydraddoldeb, Amrywiaeth, Cynhwysiant a'r Gymraeg. Cafodd deunyddiau'r digwyddiad, tystysgrifau a chyflwyniadau eu cynhyrchu'n ddwyieithog, a cafodd enghreifftiau o hyrwyddo'r Gymraeg a darparu gwasanaethau drwy'r Gymraeg eu cydnabod yn y rhaglen wobrwyo. Roedd y fenter yn gyfle i ddathlu arfer da ac atgyfnerthu pwysigrwydd gwasanaethau Cymraeg o fewn gofal cleifion.



Tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Parhaodd y Tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu i gefnogi cyfathrebu dwyieithog ar draws y sefydliad, drwy gyhoeddi cynnwys corfforaethol dwyieithog ar y cyfryngau cymdeithasol, cynnwys dwyieithog ar y wefan, a darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i'r Gymraeg yn ystod y sesiynau ymgysylltu â staff, Holi Suzanne. Mae'r trefniadau hyn yn helpu i sicrhau y gall staff sy'n siarad Cymraeg gael mynediad at wybodaeth yn y Gymraeg a chyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg ar draws y sefydliad.

Cefnogi Cleifion a Defnyddwyr Gwasanaeth sy'n Siarad Cymraeg

Ar draws y Bwrdd Iechyd, gwnaeth gwasanaethau adrodd am ystod o gamau gweithredu a gynlluniwyd i wella mynediad at wasanaethau Cymraeg a chefnogi anghenion cleifion a defnyddwyr gwasanaethau sy'n siarad Cymraeg. Roedd y rhain yn cynnwys darparu gwybodaeth ddwyieithog i gleifion, cyfieithu dogfennaeth i gleifion a hyrwyddo'r Cynnig Gweithredol yn barhaus ar draws gwasanaethau.

Mae gwaith a wnaed drwy'r Cynllun Ymgynghori Clinigol a mentrau gwella gwasanaethau lleol hefyd wedi cyfrannu at gryfhau dealltwriaeth o anghenion y Gymraeg a chefnogi'r broses o ddatblygu gwasanaethau Cymraeg yn y tymor hwy.

Er bod dulliau'n amrywio ar draws gwasanaethau, y nod cyffredin yw sicrhau bod iaith yn cael ei chydnabod fel agwedd bwysig ar ofal sy'n canolbwyntio ar y person, a bod unigolion yn gallu cael mynediad at wasanaethau yn y Gymraeg pan fyddant yn dewis gwneud hynny.

Edrych tuag at y Dyfodol

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod hyrwyddo'r Gymraeg yn broses barhaus sy'n mynd y tu hwnt i gydymffurfio â gofynion statudol. Bydd meithrin hyder y gweithlu, creu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, dathlu arfer da a chefnogi'r broses o ddarparu gwasanaethau dwyieithog yn parhau i fod yn flaenoriaethau pwysig yn y blynyddoedd i ddod. Drwy barhau i fuddsoddi mewn dysgu, ymgysylltu a newid diwylliannol, mae'r Bwrdd Iechyd yn anelu at gryfhau ei allu i ddiwallu anghenion ieithyddol y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu a chreu amgylchedd lle gall gwasanaethau Cymraeg ffynnu.



Gwybodaeth Statudol

Mae'r adran hon yn darparu'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan Safonau'r Gymraeg mewn perthynas â'r cyfnod adrodd 1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026.

Cwynion yn Ymwneud â Safonau'r Gymraeg

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi ymrwymo i sicrhau bod pryderon sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn cael eu hystyried yn briodol a bod cyfleoedd i ddysgu a gwella yn cael eu nodi lle bo angen. Ymdrinnir â phryderon sy'n ymwneud â gofal cleifion drwy'r broses Gweithio i Wella, ac ymdrinnir â phryderon sy'n ymwneud â gwasanaethau corfforaethol a chydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg drwy brosesau corfforaethol sefydledig y Bwrdd Iechyd.

Cwynion a Dderbyniwyd yn ystod 2025–2026

Ni dderbyniodd y Bwrdd Iechyd unrhyw gwynion ffurfiol yn ymwneud â chydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg yn uniongyrchol yn ystod y cyfnod adrodd.

Codwyd nifer o faterion yn ymwneud â'r Gymraeg yn uniongyrchol gyda Chomisiynydd y Gymraeg yn ystod y flwyddyn. Roedd y rhain yn ymwneud yn bennaf â chofnodi sgiliau Cymraeg y gweithlu, recriwtio a chynllunio'r gweithlu, gwasanaethau ffôn, cydymffurfiaeth ar y cyfryngau cymdeithasol, arwyddion a datblygu gwasanaethau Cymraeg. Ymgysylltodd y Bwrdd Iechyd yn adeiladol drwy gydol y broses hon a defnyddiodd y canfyddiadau a'r argymhellion a ddeilliodd o hynny i gefnogi gweithgarwch gwella.

.

Sgiliau Cymraeg y Gweithlu

Roedd gwella cyflawnrwydd ac ansawdd data Cymraeg y gweithlu yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i'r sefydliad yn ystod 2025–2026. Ar 31 Mawrth 2026, roedd sgiliau Cymraeg wedi'u cofnodi ar gyfer 70.14% o'r gweithlu. Mae hyn yn cynrychioli gwelliant sylweddol o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol ac yn darparu sylfaen dystiolaeth gryfach i gefnogi'r broses o gynllunio'r gweithlu a datblygu gwasanaethau.

Proffil Sgiliau Cymraeg y Gweithlu (31 Mawrth 2026)

Gwrando / Siarad Cymraeg	Cyfrif pennau	% y gweithlu
0 - Dim Sgiliau	8,483	49.55%
1 - Mynediad	2,167	12.66%
2 - Sylfaen	426	2.49%
3 - Canolradd	259	1.51%
4 - Uwch	277	1.62%
5 - Hyfedredd	396	2.31%
Heb eu hasesu	5,113	29.86%
Cyfanswm y Gweithlu	17,121	100%

Yn ystod y cyfnod adrodd, cryfhaodd y Bwrdd Iechyd drefniadau llywodraethu i wella'r broses o gofnodi sgiliau Cymraeg y gweithlu. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn ystod 2026–2027 er mwyn helpu i gynllunio'r gweithlu a darparu gwasanaethau Cymraeg.

Recriwtio a Gofynion y Gymraeg

Yn ystod 2025–2026, hysbysebwyd cyfanswm o 1,232 o swyddi gwag a'u categoreiddio fel a ganlyn.

Gofynion y Gymraeg ar gyfer Swyddi Gwag

Categori'r Gymraeg	Nifer y swyddi gwag
Sgiliau Cymraeg yn hanfodol	0
Sgiliau Cymraeg yn ddymunol	1,188
Mae angen dysgu sgiliau Cymraeg pan gewch eich penodi i'r swydd	0
Nid yw sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol	44
Cyfanswm	1,232

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu seilwaith i gefnogi rheolwyr i asesu'r sgiliau Cymraeg sy'n ofynnol ar gyfer swyddi, gan gynnwys prosesau i ystyried gofynion y Gymraeg fel rhan o recriwtio a chynllunio'r gweithlu. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod llawer o waith i'w wneud o hyd i sicrhau bod y seilwaith hwn yn cael ei ddeall yn gyson, ei hyrwyddo'n weithredol a'i ddefnyddio'n ystyrlon ar draws y sefydliad. Bydd angen mwy o ffocws sefydliadol i sicrhau bod gofynion y Gymraeg yn cael eu hystyried yn gynnar wrth gynllunio'r broses recriwtio a bod penderfyniadau'n cael eu llywio gan anghenion y gwasanaeth, capasiti'r gweithlu ac anghenion ieithyddol cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a chymunedau. Bydd cryfhau'r dull hwn yn rhan o flaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer 2026–2027.

Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a Dysgu'r Gymraeg

Parhaodd y Bwrdd Iechyd i hyrwyddo hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg i gefnogi dealltwriaeth staff o Safonau'r Gymraeg, y Cynnig Gweithredol a phwysigrwydd gwasanaethau Cymraeg o fewn lleoliadau gofal iechyd. Ar 31 Mawrth 2026, roedd 87.96% o staff wedi cwblhau'r modiwl e-ddysgu gorfodol, Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg.

Parhaodd y Bwrdd Iechyd hefyd i hyrwyddo cyfleoedd i staff ddatblygu sgiliau Cymraeg trwy ei bartneriaeth â Dysgu Cymraeg Caerdydd a'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Dysgu Cymraeg. Darperir rhagor o wybodaeth am weithgarwch dysgu a datblygu yn Adran 6 o'r adroddiad hwn.

Gweithgarwch Monitro a Gwella Cydymffurfiaeth

Drwy gydol 2025–2026, bu'r Bwrdd Iechyd yn ymwneud ag amrywiaeth o weithgareddau cydymffurfio a monitro yn ymwneud â Safonau'r Gymraeg. Roedd y gweithgareddau hyn yn cynnwys:

- Cofnodi sgiliau Cymraeg y gweithlu a chynllunio'r gweithlu.
- Prosesau recriwtio ac asesu'r gweithlu.
- Gwasanaethau ffôn dwyieithog.
- Cydymffurfiaeth ar y cyfryngau cymdeithasol.
- Arwyddion a chyfathrebu gyda'r cyhoedd.
- Datblygu gwasanaethau clinigol yn y Gymraeg.

Mae'r hyn a ddysgwyd o'r gweithgareddau hyn wedi llywio trefniadau llywodraethu, gweithgarwch gwella gwasanaethau a'r blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer 2026–2027.

Meysydd ar gyfer Gwelliant Parhaus

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fod wedi ymrwymo i welliant parhaus ac mae wedi nodi'r meysydd canlynol fel blaenoriaethau ar gyfer datblygiad pellach:

- Gwella ymhellach gyflawnrwydd ac ansawdd data sgiliau Cymraeg y gweithlu.
- Cryfhau trefniadau sicrwydd ar gyfer gwasanaethau ffôn dwyieithog.
- Parhau i ddatblygu capasiti'r gweithlu i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg.
- Cryfhau'r defnydd o ddata'r gweithlu i lywio'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau.



Dysgu, Heriau a Blaenoriaethau

Myfyrdodau ar 2025–2026

Yn ystod 2025–2026, parhaodd y Bwrdd Iechyd i gryfhau ei ddull o weithredu Safonau'r Gymraeg a chefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau dwyieithog ar draws y sefydliad. Roedd cynnydd yn amlwg mewn sawl maes, gan gynnwys gwelliannau wrth gofnodi sgiliau Cymraeg y gweithlu, lefelau uchel o gwblhau hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, buddsoddiad parhaus mewn mentrau dysgu a datblygu'r Gymraeg, ac ymdrechion parhaus i hyrwyddo cyfathrebu dwyieithog a'r Cynnig Gweithredol ar draws gwasanaethau.

Dangosodd y cyfnod adrodd hefyd werth llywodraethu cryf, gweithio mewn partneriaeth a dysgu sefydliadol. Gwnaeth ymgysylltu â staff, Byrddau Clinigol, Byrddau Gwasanaeth a phartneriaid allanol helpu i nodi enghreifftiau o arfer da a chefnogodd ddatblygiad parhaus gwasanaethau Cymraeg ar draws ystod o leoliadau. Parhaodd cyfleoedd dysgu a ddarparwyd trwy bartneriaethau â Dysgu Cymraeg Caerdydd a'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Dysgu Cymraeg i gefnogi hyder a gallu staff, gan gyfrannu at uchelgais tymor hwy'r Bwrdd Iechyd o ddatblygu gweithlu dwyieithog.

Rhoddodd ymgysylltiad y Bwrdd Iechyd â Chomisiynydd y Gymraeg drwy gydol y flwyddyn gyfleoedd pellach i gryfhau sicrwydd, adolygu trefniadau presennol a nodi meysydd lle roedd angen gwelliannau. Mae hyn wedi helpu i atgyfnerthu pwysigrwydd cynllunio sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gweithredu cyson a gwelliant parhaus wrth gefnogi gwasanaethau Cymraeg.

Heriau parhaus

TMae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd, ond nid yw eto'n cyflawni nac yn sicrhau darpariaeth Gymraeg yn gyson ar draws yr holl wasanaethau. Y brif her ar gyfer 2026–2027 yw symud o enghreifftiau unigol o arfer cadarnhaol a datblygu seilwaith tuag at ddull sefydliadol mwy systematig.

Mae gwybodaeth am y gweithlu yn parhau i fod yn anghyflawn, gyda 29.86% o staff wedi'u cofnodi fel rhai nad oeddent wedi'u hasesu ar 31 Mawrth 2026. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r Bwrdd Iechyd i ddeall ble mae sgiliau Cymraeg ar gael a ble y gallai bylchau effeithio ar ddarparu gwasanaethau. Felly rhaid i ansawdd data wella ochr yn ochr â chyfraddau cwblhau.

Mae arferion recriwtio hefyd yn gofyn am fwy o sylw sefydliadol. Ni wnaeth unrhyw swyddi gwag a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn nodi bod sgiliau Cymraeg yn hanfodol na bod gofyniad i ddysgu'r iaith yn dilyn y penodiad. Er nad yw hyn yn datgan a oedd asesiadau unigol yn briodol, mae'n dangos bod angen craffu'n gryfach ar sut mae anghenion iaith, capasiti'r gweithlu a gofynion gwasanaeth yn cael eu hystyried wrth gynllunio swyddi.

Mae sicrwydd ar draws sianeli cyfathrebu yn parhau i fod yn anghyson. Dangosodd trefniadau cyfryngau cymdeithasol corfforaethol ganlyniadau cadarnhaol, ond mae angen cryfhau goruchwyliaeth o gyfrifon a reolir yn lleol. Yn yr un modd, nid yw cynnydd ar wasanaethau ffôn wedi rhoi sicrwydd cyson eto bod galwyr sy'n siarad Cymraeg yn cael profiad cyfatebol ar draws y sefydliad.

Rhaid i'r Bwrdd Iechyd hefyd gryfhau ei ddealltwriaeth o ganlyniadau. Mae llawer o'r dystiolaeth sydd ar gael yn disgrifio gweithgarwch, cyfranogiad a phroses. Dylai

gwaith monitro yn y dyfodol roi darlun cliriach i ddangos p'un a yw'r camau gweithredu hyn yn llwyddo i wella mynediad, profiad cleifion a'r broses o ddarparu'r Cynnig Gweithredol yn gyson.

Blaenoriaethau ar gyfer 2026 – 2027

Gan adeiladu ar y cynnydd a wnaed yn ystod 2025–2026, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi pum maes blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn nesaf.

1. **Sefydlu tystiolaeth ddibynadwy o'r gweithlu**
   Lleihau nifer y staff nad yw eu sgiliau Cymraeg yn cael eu cofnodi, gwella hyder yn ansawdd data a defnyddio'r dystiolaeth sy'n deillio o hyn wrth gynllunio'r gweithlu a'r gwasanaethau.

2. **Cryfhau penderfyniadau recriwtio**
   Sicrhau bod rheolwyr yn asesu gofynion Cymraeg yn gyson ac yn gynnar, gyda phenderfyniadau'n cael eu llywio gan anghenion y gwasanaeth, capasiti'r gweithlu ac anghenion ieithyddol cleifion a chymunedau.

3. **Cynyddu a chymhwyso gallu'r gweithlu**
   Cynyddu nifer y bobl sy'n mynd ati i ddysgu Cymraeg, cefnogi dilyniant a chreu cyfleoedd ymarferol i staff ddefnyddio eu sgiliau yn eu rolau.

4. **Darparu gwasanaeth cyson a sicrwydd cyfathrebu**
   Sefydlu dull monitro cymesur ar draws gwasanaethau ffôn, llwyfannau digidol, cyfryngau cymdeithasol a chyfathrebu a reolir yn lleol, gyda pherchnogaeth glir dros gamau cywirol.

5. **Dangos canlyniadau i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth**
   Datblygu mesurau sy'n dangos a yw gweithgarwch Cymraeg yn gwella mynediad, profiad a'r broses o ddarparu'r Cynnig Gweithredol, yn hytrach na dibynnu'n bennaf ar ddata gweithgarwch a chwblhau.

6. **Cryfhau atebolrwydd sefydliadol**
   Defnyddio canlyniadau o waith craffu, adborth, cwynion, monitro ac ymgysylltu â Chomisiynydd y Gymraeg i nodi risg, olrhain camau gwella a darparu sicrwydd tryloyw.

Edrych tua'r Dyfodol

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fod wedi ymrwymo i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg a bod cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a staff sy'n siarad Cymraeg yn gallu cael mynediad at wasanaethau a chymorth trwy gyfrwng y Gymraeg yn hyderus. Mae'r cynnydd a gyflawnwyd yn ystod 2025–2026 yn darparu sylfaen gref ar gyfer gwelliant yn y dyfodol, a bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i gydweithio â staff, cleifion, cymunedau a phartneriaid i gryfhau gwasanaethau Cymraeg a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn lleoliadau gofal iechyd.

